# Barn rhieni ar Gyflogaeth Gefnogol i bobl ifanc ag Anableddau Dysgu a Phobl Ifanc Awtistig.

Tachwedd 2023

Gan Gerraint Jones-Griffiths, Anabledd Dysgu Cymru
Gydag Andrea Meek a Dr Elisa Vigna, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd





# Contents

| | |
|---|---|
| Diolchiadau | 2 |
| Rhwystrau | 3 |
| Beth yw'r disgwyliadau?The | 3 |
| manteision cyflogaeth | 6 |
| Meddwl am newid | 8 |
| Cynghorion Rhieni | 10 |
| Dolenni defnyddiol | 11 |
| Cysylltwch â ni | 12 |

# Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i rieni a gofalwyr yn ardal Castell-nedd Port Talbot am eu hamser a mewnbwn i'r adroddiad hwn.

Yn fy rôl fel Llysgennad Arweiniol ar gyfer y Prosiect Engage to Change, cefais fy ngwahodd ynghyd â thîm ymchwil E2C, i siarad â grŵp o rieni am gyflogaeth gefnogol a llwybrau i mewn i waith sydd ar gael ledled Cymru.  Roedd 10 o rieni, ac roedd gan eu pobl ifanc i gyd anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys diagnosis o anableddau dysgu ac awtistiaeth ac roeddent yn amrywio o blant ifanc iawn i oedolion ifanc.

Fe wnaethon ni gyd-gynhyrchu cyflwyniad a oedd yn sôn am waddol E2C, rôl unigryw'r hyfforddwr swyddi ac asiantaethau cyflogaeth cefnogol, codi disgwyliadau o gyflogaeth, pa gymorth sydd ei angen a'r llwybrau sydd ar gael nawr.



# Rhwystrau

Cawsom sesiwn ryngweithiol gyda'r rhieni, gan ofyn iddynt ddweud wrthym ni am eu profiadau a'u barn am gyflogaeth i'r bobl ifanc maen nhw'n eu cefnogi, fe wnaethom siarad am y model cymdeithasol o anabledd a'r rhwystrau mewn cymdeithas i gyflogaeth i bobl ifanc ag anableddau dysgu a phobl ifanc awtistig.




# Beth yw'r disgwyliadau?

Fe wnaethom ni ddechrau gyda "brwydr pelen eira" gan ddefnyddio darnau o bapur yn gofyn i'r grŵp beth oedd swydd eu breuddwydion, cawsom ymatebion diddorol iawn gydag atebion amrywiol gan wneud i'r grŵp siarad!




Yna aethom ni ymlaen at ein hail gwestiwn, sef beth maen nhw'n meddwl yw swydd freuddwyd eu pobl ifanc? Roedd y cwestiwn hwn yn anoddach ond roeddem ni am i rieni feddwl am hyn, yn y gorffennol pan rydym ni wedi cynnal gweithdai neu gyflwyniadau, mae llawer o bobl ifanc nad ydynt yn gwybod beth yw swydd eu breuddwydion, oherwydd nad oes unrhyw un wedi gofyn iddynt erioed. Ond cawsom atebion gwych!




Fe wnaethom egluro bod y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn isel, gyda dim ond tua 5 o bob 100 o bobl ifanc yn mynd i gyflogaeth (4.8%). Dywedodd rhieni wrthym ni eu bod nhw'n teimlo bod gan ysgolion, addysg a gwasanaethau ddisgwyliadau isel iawn y byddai'r bobl ifanc yr oeddent yn gofalu amdanynt yn mynd i gyflogaeth.

# Manteision cyflogaeth

Fe wnaethom siarad am fanteision cyflogaeth i bobl ifanc.  Fe wnaethom ofyn i rieni pam eu bod nhw'n credu bod cyflogaeth yn bwysig, ar gyfer hyn fe wnaethom ni ddefnyddio Mentimeter i gasglu ymatebion, mae'r canlyniadau isod.




Fe wnaeth rhieni siarad am gyflogaeth yn rhoi strwythur ac ymdeimlad o bwrpas, annibyniaeth lawnach, gwella sgiliau cyfathrebu a bod yn rhan o dîm.  Roedd gweithio yn y gymuned, cael eich talu a gallu fforddio pethau neis a gwyliau hefyd yn bwysig.

# Meddwl am newid

Roedden ni eisiau gwybod beth oedd barn rhieni am bedwar cwestiwn allweddol.  Fe wnaethom ni ddefnyddio darnau o bapur i gasglu ymatebion, mae'r canlyniadau isod.

### 1. Pa gymorth y gallai eich person ifanc fod ei angen i ddechrau meddwl am gyflogaeth?

"Nid yw athrawon yn ddigon da (o ran cefnogi plant i feddwl am gyflogaeth)"

"Mae angen gweithiwr cymorth yn yr ysgol, mae'n rhaid i ni gael ffeiriau gyrfa ystyrlon a, neu gyda, sgyrsiau am yrfaoedd i fyfyrwyr ADY.  Nid yw hyn yn digwydd. Mae angen mwy o sôn am y camau nesaf yn y dyfodol".

"Helpu i adnabod eu cryfderau a'u sgiliau eu hunain a  helpu i ddatblygu CV's".

"CV a thechnegau ymgeisio gyda phobl yn cyfweld a chymorth i gyflawni'r cymwysterau cywir".

“Help with their social skills and with their dyslexia, also particular task analysis, how to deal with hierarchy”.

"Help gyda'u sgiliau cymdeithasol a gyda'u dyslecsia, hefyd dadansoddi tasg benodol, sut i ddelio â hierarchaeth".

"Efallai eu cefnogi i esbonio am gyflogaeth."

## 2. Pa gymorth ydych chi ei angen fel rhiant/gofalwr i gefnogi'ch person ifanc gyda chyflogaeth?

"Cael hyfforddwr swydd, hyfforddiant teithio, dadansoddi tasg (yn cael ei arwain gan anghenion) a thrwy gael P.A".

"Cyfathrebu clir iawn gan ddarpar gyflogwyr a hyfforddwyr swyddi, athrawon yn dysgu pobl ifanc o oedran ifanc."

"Cyfathrebu clir a thasgau wedi'n cael eu torri lawr".

"Cael sgyrsiau cyfeillgar er mwyn iddynt ddeall".

"Nid yw fy mhlentyn ddim yn blentyn Safon Uwch, ond yn sicr fe all gael swydd os oes cymorth ar gael".

"Sgiliau bywyd yn yr ysgol yn lle gwneud algebra, fyddan nhw byth yn deall algebra, ond gallen nhw ddefnyddio sgiliau bywyd".

“Hyfforddiant teithio”.

"Efallai gallu gofyn am gefnogaeth gan deulu neu ffrindiau."

"Help i'n cefnogi neu roi profiadau o ran yr hyn yr hoffai'r plentyn ei wneud."

### 3. Pa gymorth ydych chi ei angen fel rhiant/gofalwr i gefnogi'ch person ifanc gyda chyflogaeth?

"Dylai ysgolion a cholegau fod â chysylltiadau uniongyrchol â chyflogwyr, helpu i addysgu mwy o bynciau galwedigaethol a helpu i baratoi gyda sgiliau bywyd fel cyfweliad".

"Staff yn cael eu hyfforddi mewn ymwybyddiaeth sgiliau bywyd a chynnig prentisiaethau ac addysg uwch, hyfforddiant teithio a sgiliau cyfweliad".

"Dod â hyfforddwr swydd i mewn - rhoi cynnig cyn prynu os mynnwch chi, magu hyder, hyfforddiant teithio a chael system gyfeillio".

"Iaith gadarnhaol o ran sgiliau a nodi nodau cyflogaeth posib".

"Rhywun i esbonio i'r cyflogwr am eu hanghenion".

"Addysgu sgiliau cyflogaeth llawn h.y. rheolau bywyd/cyflogaeth".

"Defnyddio iaith bositif a nodi cyfleoedd".

"Cael llysgennad yn dod mewn i'r ysgol, fel chi Gerraint"!

"Cael seminarau gyda'r rhai sy'n gadael yr ysgol, yn dangos yr opsiynau iddyn nhw".

"Edrych ar y plentyn ddim ar y diffyg, edrych ar yr hyn maen nhw'n gallu ei wneud, na ar beth dydyn nhw ddim yn gallu ei wneud."

"Cefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu fel eu bod nhw'n dod yn annibynnol."

### 4. Beth ddylai eich ALl neu LlC fod yn ei wneud yn eich ardal chi i annog cyflogaeth i bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yng Nghymru?

"Darparu hyfforddiant teithio, gan weithio mewn partneriaeth â'r ALlau, ysgolion, iechyd, rhieni, pobl ifanc, SW a chymryd atebolrwydd am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu."

"Darparu cyllid, profiadau a chefnogaeth briodol gan gyflawni'r newid maen nhw'n addo. Cysylltu ag ysgolion i ddeall materion unigol a brofir gan bobl ifanc."

"Cyfathrebu gydag ysgolion a cholegau ac i roi cefnogaeth ar waith ar gyfer swyddi ac i wirfoddolwyr".

"Cael mwy o staff yn eu lle, mwy o waith partneriaeth rhwng rhieni, gweithwyr cymdeithasol a'r person ifanc".

"Rydyn ni eisiau dweud ein dweud, siaradwch gyda ni, rydyn ni'n rhieni sy'n brwydro".

## Awgrymiadau Rhieni

Fe wnaethom siarad am sut y gallai rhieni helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth ac am hawliau ac addasiadau rhesymol. Fe wnaethom siarad am sut y gellir gofyn am addasiadau rhesymol yn ystod y cam ymgeisio, gan gynnwys pwysigrwydd gofyn am fersiynau hawdd eu deall a hygyrch o ffurflenni cais gan gyflogwyr.




## Know your rights and reasonable adjustments

Equality Act 2010

Menu of reasonable adjustments:

- Time out (quiet space)
- Movement breaks
- Additional time for processing
- Information in advance
- Recording meetings
- Sensory - air conditioning/ lighting/ smells/ crowds
- End of row seating/ Natural light
- Quiet workspace
- Music while working
- Set workspace (avoid hot-desking)
- Accessible communication – easy read/ clear points
- Accessible software (text to speech)
- Screen reading software
- Dyslexia friendly font/ colored paper/ screen filter
- Clear communication for unwritten rules
- Visual prompts / reminders
- Alarms/ reminder apps – help with organization
- Flexible working
- Job Carving
- Access to Work




## Pwyntiau allweddol o’r sesiwn oedd:

- Doedd neb yn gwybod am Engage to Change/ interniaethau â chymorth neu brentisiaethau â chymorth

- Roedd gan ddau berson brofiad o'u plentyn yn gweithio gyda hyfforddwr swydd, un trwy Elite SEA ac un drwy'r ganolfan waith

- oedd gan rai pobl ifanc brofiad o waith ond nododd rhieni'n gryf nad oedden nhw wedi cael unrhyw gefnogaeth a bod profiadau wedi bod yn fyr/negyddol

- Cafwyd llawer o drafod ynghylch rolau ysgolion/colegau a'r defnydd o iaith negyddol ynghylch sgiliau / disgwyliadau ar gyfer cyflogaeth.

- Roedd pawb yn cytuno eu bod yn rhieni i "blant anghofiedig" (fel y dywedodd un rhiant) o ran cyflogaeth

- 1Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch datgelu awtistiaeth a neu anabledd dysgu mewn ffurflenni cais. Mae'r broblem bob amser yr un fath: os yw'r ymgeisydd yn datgelu anabledd, yna mae'n debygol na fydd y cyflogwr yn eu galw am gyfweliad. I'r gwrthwyneb, os na fyddant yn datgelu, byddant yn cael cyfweliad ond ni fydd unrhyw gefnogaeth ar gael. Mynegodd un rhiant ei phryder gan fod eu plentyn bellach mewn cyflogaeth heb ddatgelu ei anabledd, felly roeddent yn meddwl tybed pa mor hir y gallent bara heb gymorth gan na ellid gofyn am addasiadau rhesymol.

# Trafodaeth ac argymhellion

Roedd rhieni'n hynod frwd ac angerddol o ran cyflogaeth gefnogol ac fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith nad oedd digon o ddisgwyliad ynghylch cyflogaeth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a bod cymorth yn anodd dod o hyd iddo.

Roedd rhieni'n teimlo y gallai Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, ysgolion a cholegau fod yn gwneud mwy i gyfathrebu a hyrwyddo cyflogaeth â chymorth/interniaethau â chymorth a phrentisiaethau â chymorth i bobl ifanc ag anableddau dysgu a phobl ifanc awtistig.

Mae angen gwell cefnogaeth ar rieni i ddeall yr hawliau a'r addasiadau rhesymol mae gan bobl ifanc hawl iddynt wrth chwilio am waith.

Dylid hyrwyddo asiantaethau cyflogaeth gefnogol yn well. Mae cyfeirio agored yn bwysig. Dylai hyfforddiant swyddi fod ar gael mewn ysgolion a cholegau.

Roedd rhieni eisiau darlun cliriach o nifer y bobl ifanc ag anableddau dysgu/ADY mewn cyflogaeth yng Nghymru. Fe wnaethon nhw ddweud y dylai hyn gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru fel bod modd trefnu a thargedu gwasanaethau a chymorth yn well.

Dywedodd rhieni ei bod yn rhwystredig nad oedd gennym ni unman cadarn i gyfeirio rhieni ato - arwydd bod diwedd E2C wedi gadael bwlch yn y ddarpariaeth.

# Casgliad



Mae'r prosiect Engage to Change wedi gadael gwaddol.  Fodd bynnag, fe wnaeth y prosiect roi'r gorau i gymryd atgyfeiriadau yn ffurfiol ym mis Mai 2023.

Dywedodd rhieni ei bod yn rhwystredig nad oedd gennym ni unrhyw fan cadarn i gyfeirio pobl ifanc ato os oedd ganddynt ddiddordeb mewn gweithio. Mae hyn yn arwydd bod diwedd E2C wedi gadael bwlch yn y ddarpariaeth.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae angen i Lywodraeth Cymru gefnogi a hyrwyddo cyflogaeth â chymorth yn ariannol, prentisiaethau â chymorth, interniaethau â chymorth a gwasanaeth hyfforddi swyddi cenedlaethol.

Mae angen mwy o gefnogaeth a chyfathrebu gwell ar rieni i feddwl am gyflogaeth fel llwybr i'r person ifanc maen nhw'n gofalu amdano.

Rydym ni angen gwell gwasanaethau a chefnogaeth mewn ysgolion a cholegau i siarad am gyflogaeth ac i baratoi pobl ifanc ag anableddau dysgu a phobl ifanc awtistig ar gyfer gwaith.

Bydd hyn yn helpu i godi disgwyliadau ynghylch cyflogaeth.

# Cysylltiadau defnyddiol

engagetochange@ldw.org.uk

Authors:

gerraint.jones-griffiths@ldw.org.uk

Meek@cardiff.ac.uk

Vignae@cardiff.ac.uk

Follow us on social media:

Website: www.engagetochange.org.uk

YouTube: Engage To Change

Facebook: @engagetochangewales

Twitter: @Engage_2_Change / @ncmh_wales



Website: www.engagetochange.org.uk

YouTube: Engage To Change

Facebook: @engagetochangewales

Twitter: @Engage_2_Change  / @ncmh_wales